



Perchnogaeth Ail Gartrefi

24 Awst 2023

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 9 Awst 2023, pan wnaethoch ofyn y canlynol:

Could you please provide the following information regarding the ownership of second or multiple dwellings :

- 1. Properties in Wales by members of the Senedd.*
- 2. Properties outside Wales by members of the Senedd.*
- 3. If these are used as residences, rental properties, Air B&B's or holiday lets in or outside Wales by members of the Senedd.*

Gweler ein hymateb isod.

- 1. Properties in Wales by members of the Senedd.*

Rhaid i Aelodau o'r Senedd gofrestru'r tir a'r eiddo y maent yn berchen arnynt yng **Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau (senedd.cymru)**, a hynny o dan y pennawd a ganlyn: Categori 8: Tir ac Eiddo. Nid yw'r **canllaw** yn gwahaniaethu rhwng eiddo yng Nghymru ac eiddo mewn mannau eraill.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y **Canllawiau i Aelodau o'r Senedd ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill**, a hynny o dan *Adran 5. Beth ddylai gael ei gofrestru? 5.8. Categori 8: Tir ac Eiddo.*

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

- 2. Properties outside Wales by members of the Senedd.*

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Gweler ein hymateb i gwestiwn 1 uchod.

3. *If these are used as residences, rental properties, Air B&B's or holiday lets in or outside Wales by members of the Senedd.*

Gweler ein hymateb i gwestiwn 1 uchod.

Yn gywir

Buddug Saer
Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF